Cysylltu eich mesurydd

SP ENERGY NETWORKS

Gennych chi mae'r dewis...

Yn SP Energy Networks, rydyn ni'n darparu cysylltiad o'n rhwydwaith trydan i'r prif ffiws (a elwir hefyd yn 'cut out' neu 'cablehead').

Mae'n bwysig cofio nad ydym yn darparu nac yn cysylltu'r mesurydd trydan. Eich cyflenwr trydan sy'n gwneud hynny - y cwmni a fydd yn anfon bil trydan rheolaidd atoch chi. Mae mwy o wybodaeth am ddewis cyflenwr trydan ar gael drwy fynd i ofgem.gov.uk.
Ar ôl i chi dderbyn a thalu ein dyfynbris ar gyfer y cysylltiad, byddwn yn rhoi Rhif Gweinyddu Pwynt Mesurydd (MPAN) i chi, a dyddiad ar gyfer cysylltu'r cebl newydd. Bydd angen y wybodaeth hon ar y cyflenwr trydan o'ch dewis er mwyn iddo osod eich mesurydd. Rhaid i chi gofrestru eich MPAN o leiaf 15 diwrnod cyn cysylltiad domestig, ac o leiaf 28 diwrnod cyn cysylltiad annomestig.

Y broses cysylltu mesurydd

1

Rydyn ni'n rhoi rhif MPAN unigryw ar gyfer eich eiddo i chi, yn ogystal â'r dyddiad y byddwn yn cwblhau'r cysylltiad i'r prif ffiws

2



Rydych chi'n dewis eich cyflenwr trydan ac yn cofrestru eich MPAN – gall hyn gymryd 28 diwrnod

3

Rydych chi'n trefnu i'ch cyflenwr osod eich mesurydd - ond cofiwch na fydd modd gosod y mesurydd nes bod ein gwaith wedi'i gwblhau

4

Bydd y cyflenwr trydan o'ch dewis yn trefnu i osod eich mesurydd, ac yn rhoi eich cyflenwad ar waith

Bydd y lle a fydd ei angen ar gyfer eich mesurydd newydd yn dibynnu ar ai eiddo domestig neu fasnachol sydd gennych chi. Bydd eich rheolwr prosiect yn trafod yr union le sydd ei angen ar gychwyn y gwaith.

Yn y cyfamser, tarwch olwg ar adran 'Your Responsibilities' eich dyfynbris cysylltiad trydanol – bydd yn esbonio'r gofynion.